COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 29AIN O ORFFENNAF 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL:
Y Cynghorwyr Arwel Davies (Cadeirydd), Philip Williams, Stephen Williams, Manon Davies, Edmund Evans, Rhian Jones, Helen Jones, Bari Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams ynghyd a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU.
Y Cynghorwyr Ian Evans a Rhian Evans.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Dim.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 24ain o Fehefin 2024.

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA ISOD.
Mae'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych wedi cychwyn trwsio'r tyllau ar y ffyrdd sydd angen sylw a chodwyd yn cyfarfod blaenorol y Cyngor.

6. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.
Dim cyhoedd yn bresennol.

7. ARWYDDION PENTRE' PRION.
Cytunodd Y Cadeirydd i wneud ymholiadau ynglŷn ar arwydd pentre' Prion gan gontractwyr lleol.

8. ARWYDD ELECTRONIG CYFLYMDRA PARHAOL YM MHENTRE' LLANRHAEADR.
Derbyniwyd amcan bris oddi wrth Rebecca Williams, Swyddog Cyngor sir Ddinbych am arwydd electronig cyflymdra parhaol ym Mhentre' Llanrhaeadr, sef £3,820.00 am yr arwydd a £600.00 am osod yr arwydd. Penderfynwyd derbyn yr amcan bris ac i archebu'r arwydd

9. SESIYNAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.
Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Un Llais Cymru am y chwarter yn diweddu Medi 2024.

10. MATERION CYLLID.
A: Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr ddiweddaraf o'r derbyniadau a thaliadau banc y Cyngor am y cyfnod thwng 1af Ebrill hyd 20fed o Orffennaf 2024.
B. Chadarnhawyd y taliadau canlynol:-
1. Ffi fisol banc HSBC £5.00.
2. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod y Cyngor Cymuned £20.00.
3. Defib Store Ltd. am nwyddau i'r diffibriliwr ym Mhentre' Llanrhaeadr (Siop-y-Pentre) £162.00.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A: Cais cynllunio 23/2024/1140/HH – Codi estyniadau unllawr a deulawr i ochr yr annedd, newidiadau i drefniadau parcio ceir yn y blaen a gwaith cysylltiedig (cynllun diwygiedig) yn 22 Caer Felin, Llanrhaeadr – dim gwrthwynebiad.

B. Cais Cynllunio: 23/2024/1143/HH - Newidiadau i'r sgubor bresennol i ffurfio gweithdy a storfa yn Tyn Bedw, Prion - penderfynwyd ar y sylwadau canlynol:-

1. Mae'r adeilad newydd yn fwy na'r hen adeilad.
2. Mae'r adeilad newydd yn edrych fel preswyl yn hytrach na ffurfio gweithdy.
3. Nid yw'r cais cynllunio yn gywir oherwydd y sylwadau uchod.

12. E-BYST Y CYNGOR.

Penderfynwyd y Gwefeistr y Cyngor i greu'r e-byst newydd canlynol ar gyfer y Cyngor:-

A: cadeirydd@llanrhaeadryngnghinmeirch.co.uk
B. iscadeirydd@llanrhaeadryngnghinmeirch.co.uk
C. clerc@llanrhaeadryngnghinmeirch.co.uk

13. DIFFIBRILIWR PENTRE' LLANRHAEADR.

Mae'r diffibriliwr ym Mhentre' Llanrhaeadr eisiau darnau newydd i'w archebu.

14. GOHEBIAETH.

Dim gohebiaeth ychwanegol i'w thrafod.

15. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad Y Cynghorydd Elfed Williams ynglŷn ar brosiectau yng Nghapeli Prion a Phentre' Llanrhaeadr.

16. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

A: Arwydd wrth Ysgol Pantpastynog eisiau sylw.
B. Mae'r tyllau ar y ffordd rhwng Prion a Saron eisiau eu hail thrwsio.
C. Eisiau torri'r glaswellt ochrau ffyrdd culion y gymuned cyn gynted â phosib.
D. Twll wrth Tân Rallt, Peniel.

17. TRAFODAETH GYDA MR BENEDICT FERGUSON, CYD-GYFARWYDDWR GWEITHREDOL YNNI CYMUNEDOL CYMRU.

Croesawodd y Cadeirydd i Mr Benedict Ferguson i'r cyfarfod a rhoddwyd manylion i'r aelodau ynglŷn ar Ynni Hiraethog - buddsoddiad cymunedol mewn ynni adnewyddu lleol Fferm Wynt a Chysylltiad Grid Coedwig Alwen.

18. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 30AIN O FEDI 2024 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.